



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Coetiroedd a Chi Cyflwyniad

**Helpu pobl Cymru i wneud mwy
o'u coetiroedd**



**PROSIECTAU, DIGWYDDIADAU,
GWEITHGAREDDAU
ar Ystâd Coetir
Llywodraeth Cymru**

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Ein Hymrwymiad	4
2. Pa fath o weithgaredd sy'n bosibl?	4
3. Ceisiadau Coetiroedd a Chi	5
4. Sut yr asesir Eich Cynnig	8
5. Astudiaethau Achos	9
6. Cymorth a Gwybodaeth	11
7. Cwestynau Cyffredin	12
Atodiad 1 – Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	15
Atodiad 2 – Y Gymraeg	16
Atodiad 3 – Coetiroedd i Gymru	17

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer unigolion, grwpiau cymunedol a mentrau cymdeithasol sy'n dymuno trefnu gweithgareddau, digwyddiadau a phrosiectau ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gan goetiroedd botensial enfawr i fod o fudd i gymunedau mewn sawl ffordd - gellir eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant a menter, cynlluniau iechyd a lles, rhaglenni adfywio cymunedol a'r celfyddydau – mae'r posibiladau'n ddi-ddiwedd!

Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i wneud yn siŵr bod cymunedau a mentrau cymdeithasol yn cael y budd mwyaf posibl o'r Ystâd Coetir. Gallwch ddarganfod mwy am yr hyn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud [ar ein gwefan](#).

Rydym yn croesawu cynigion ac ymholiadau gan **bob** unigolyn, grŵp a menter gymdeithasol, a gellir gwneud cynigion ar unrhyw adeg. Mae coetiroedd Cymru yma i bawb. Os ydych yn bwriadu trefnu gweithgaredd, digwyddiad neu gynnal prosiect ar yr Ystâd Coetir, bydd angen i chi ystyried sut y gellir sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl ar draws eich cymuned yn gwybod amdano ac yn cael cyfle i gymryd rhan. Mae rhagor o wybodaeth am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth i'w chael yn Atodiad 1 o'r canllaw hwn.

Nod **Coetiroedd a Chi** yw agor y ffordd i fwy o bobl nag erioed wneud yn fawr o'r adnodd hwn. Mae'r cyflwyniad hwn yn esbonio mwy ynglŷn â sut mae hyn yn gweithio ac yn rhoi enghreifftiau o'r math o weithgareddau a phrosiectau a gafodd eu cefnogi yn y gorffennol.

Mae pob prosiect yn unigryw a byddant yn cael eu hystyried ar wahân. Felly, os oes gennych gynnig sy'n ymddangos yn wahanol i'r rheiny rydyn ni'n sôn amdanynt, mae'n werth cysylltu â ni beth bynnag. **Yn wir, mae'n hanfodol [eich bod yn cysylltu â ni](#) am sgwrs gychwynnol cyn i chi ddechrau unrhyw waith cynllunio manwl - fel y gallwn eich cynorthwyo drwy'r broses ar ei hyd!**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ei ffordd o weithio gyda sefydliadau masnachol – cofiwch gysylltu â ni os oes gennych gynnig.

1. Ein Hymrwymiad

Rydym yn bwriadu gwneud y broses o gynnal digwyddiadau a gweithgareddau, a datblygu prosiectau ar yr Ystâd Coetir, mor syml a phleserus â phosibl. Byddwn yn gwrandao arnoch i wneud yn siŵr bod y rhaglen yn gweithio trwy:

- Brosesau adolygu rheolaidd i sicrhau bod y ffurflenni cynnig yn glir ac mor hawdd eu llenwi â phosibl
- Prosesau adolygu rheolaidd i sicrhau bod yr arweiniad a'r cymorth yn glir a'i bod yn hawdd cael gafael arnynt
- Sicrhau bod ein staff wedi cael eu hyfforddi'n dda a'u bod yn gwrtais
- Darparu cyngor a gwybodaeth yn brydlon, a chyfeirio pobl at sefydliadau eraill, lle bo hynny'n briodol
- Gwneud penderfyniadau cyson a theg
- Ymateb i geisiadau, gohebiaeth ac ymholiadau o fewn yr amserlenni sydd wedi cael eu cyhoeddi
- Rhoi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus lle gwneir cais am hynny
- Gofyn i ymgeiswyr am adborth, a gweithredu ar yr adborth hwnnw

2. Pa fath o weithgaredd sy'n bosibl?

Gweithgareddau Lle Nad Oes Angen Caniatâd

Mae gan lawer o'r coetiroedd rydym yn gofalu amdanynt ar ran Llywodraeth Cymru fynediad agored i'r cyhoedd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (oni bai fod mynediad agored yn cael ei wahardd gan gyfyngiadau cyfreithiol neu deitl, neu gan waith coedwigaeth). Mae hynny'n golygu bod croeso brwd i aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio coetiroedd yn ddirwysr ar gyfer ystod fawr o weithgareddau hamdden.

Os gwelwch chi arwyddion yn cyfyngu ar fynediad i goetir ar unrhyw adeg, cymrwch sylw a **pheidiwch â mynd i'r ardal honno**. Bydd yr arwyddion yno am fod gwaith cynaeafu pren neu waith coedwigaeth arall ar y gweill – hyd yn oed os nad ydych yn gallu gweld na chlywed hynny o'r lle rydych chi. Byddwch yn peryglu eich diogelwch eich hun os gwnewch chi eu hanwybyddu.

Nid oes angen Trwydded ffurfiol na chytundeb ar gyfer gweithgareddau fel:

- Cerdded
- Mynd am bicnic
- Teithiau cerdded pan nad oes angen mynediad i gerbydau
- Grwpiau beicio bach nad ydynt yn gystadleuol sy'n mynd allan am dro, yn hytrach nag fel rhan o ddigwyddiad wedi'i drefnu
- Marchogaeth ceffylau – os nad oes angen allwedd ar gyfer giatiau
- Teithiau addysg hunan-dywys
- Gweithgareddau geogelcio
- Arolygon bywyd gwyllt lle nad oes angen mynediad i gerbydau

Os ydych yn ansicr a oes angen caniatâd ar gyfer y gweithgaredd sydd gennych mewn golwg, [cysylltwch â ni](#).

Gweithgareddau Lle Mae Angen Caniatâd

Gall coetiroedd Llywodraeth Cymru fod yn lleoedd prysur. Gall cynaeafu pren fod ar waith neu wedi cael ei gynllunio, ac mae nifer o bobl a grwpiau gwahanol yn defnyddio coetiroedd at ddibenion amrywiol.

Am resymau iechyd a diogelwch, ac i sicrhau nad effeithir er gwaeth ar ddefnyddwyr eraill na'u rhoi mewn perygl, mae angen i ni gael gwybod am weithgareddau a digwyddiadau sydd wedi cael eu trefnu ynghyd â datblygiadau prosiect tymor hir er mwyn inni roi caniatâd *ymlaen llaw*. Byddai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys (ac **nid** yw hon yn rhestr fanwl):

- Gweithgareddau lle mae angen mynd â cherbydau i mewn i'r coetir
- Gweithgareddau lle bydd pobl yn gorfod talu i gymryd rhan
- Hyfforddiant a chyrsgau a digwyddiadau byw yn y gwyllt
- Gosod stondinau neu bebyll
- Codi arwyddion, meinciau, creu llwybrau
- Torri llystyfiant neu wneud gwaith rheoli coetir y cytunwyd arno
- Gweithgareddau tebyg i'r Ysgol Goedwig

Yn wir, bydd angen i unrhyw beth a allai arwain at dorri [Is-ddeddfau](#) Coedwigaeth gael caniatâd ffurfiol - **eto, siaradwch â ni yn gynnar**.

Bydd angen i chi ystyried sut y gellir sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod am y gweithgaredd, digwyddiad neu brosiect rydych yn ei gynnig, ac yn cael cyfle i gymryd rhan, os yw'n bosibl. Bydd angen Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus arnoch hefyd gwerth £5m ar gyfer unrhyw weithgaredd, digwyddiad neu brosiect y byddwch yn ei gynnal. Mae'n ofynnol fel ein bod ni'n gwybod bod gennych sicrwydd yswiriant ar gyfer unrhyw beth a allai ddigwydd.

3. Ceisiadau Coetiroedd a Chi

Ar dudalen we Coetiroedd a Chi, fe welwch nifer o Ffurflenni Cais i ateb eich anghenion. Mae modd llwytho pob un o'r Ffurflenni i lawr, neu fe allwch gysylltu â ni ar 0300 065 3000 a byddwn yn eu postio atoch. **Cyn dechrau cynllunio eich gweithgaredd neu lenwi eich Ffurflen, mae'n HANFODOL eich bod yn siarad â staff eich Swyddfa Ardal Leol am yr hyn sydd gennych mewn golwg** – byddwn yn gwneud yn siŵr fod y Ffurflen gywir gennych, ac yn cynnig cymorth ac arweiniad ac yn arbed amser ac ymdrech i bawb.

Ynghyd â'r Ffurflenni Cais ar dudalen we Coetiroedd a Chi, mae Nodiadau Cyfarwyddyd i'ch helpu i'w llenwi – ac enghreifftiau o Ffurflenni sydd wedi'u llenwi. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni os ydych yn aneglur am unrhyw beth.

Rhaid i chi gyflwyno pob dogfen ategol rydym yn gofyn amdani gyda'ch cais. Ar ôl i ni dderbyn y rhain **fel arfer bydd yn cymryd 12 wythnos i wneud asesiad**. Ni allwn ddechrau ystyried ceisiadau nes bydd yr holl wybodaeth ofynnol gennym.

Mae angen y cyfnod asesu 12 wythnos fel ein bod yn gallu ymgynghori'n llawn yn fewnol ynglŷn â'r cynigion. Mae'r holl goetiroedd sy'n cael eu rheoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn goedwigoedd gwaith ac yn cael eu defnyddio gan lawer o grwpiau ac unigolion

gwahanol. Bydd angen inni wneud yn siŵr fod unrhyw weithgaredd, digwyddiad neu brosiect yn mynd i fod yn ddiogel ac na fydd yn effeithio ar bobl eraill sy'n defnyddio'r coetir neu'n gweithio ynddo.

Bydd y rhan fwyaf o gynigion lle mae angen cytundebau ffurfiol yn disgyn i un o'r categorïau hyn:

Ffurflenni Cais Coetiroedd a Chi	Math o Gytundeb
Gweithgareddau Trwyddedau Blynyddol i Unigolion, Clybiau, Busnesau	Trwydded
Digwyddiadau	Trwydded
Arolygon Cadwraeth, Treftadaeth ac Archeolegol	Trwydded
Prosiectau	Cytundeb Rheoli Prydles

Taliadau am Drwyddedau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru fel arfer yn **codi tâl** am roi Trwydded. Mae'r manylion ar dudalen we Coetiroedd a Chi, neu ffoniwch ni ac fe anfonwn gopi atoch drwy'r post. Mae rhai amgylchiadau lle gall y taliadau gael eu hepgor. Os ydych yn meddwl bod hynny'n berthnasol i chi, trafodwch y mater gyda ni.

Coetiroedd a Chi: Gweithgareddau – Trwyddedau Blynyddol

Mae'r rhain ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, fel marchogaeth ceffylau (lle mae'n rhaid cael Trwydded), sledio gyda chŵn, gyrru car a cheffyl, cadw cychod gwenyn, casglu deiliant. Mae modd rhoi'r trwyddedau hyn i unigolion ac i glybiau a busnesau.

Coetiroedd a Chi: Digwyddiadau a Digwyddiadau Lluosog

Os ydych yn trefnu digwyddiadau, mae'n debygol y bydd angen Trwydded arnoch, ond cofiwch ein holi ni. Mae dwy Ffurflen o dan y pennawd hwn:

1. Digwyddiadau Unigol (e.e. her beicio mynydd, taith gerdded fawr, triathlon, cyfeiriannu, ffilmio, pledu paent, hyfforddiant, rali geir, ac ati), a
2. Digwyddiadau Lluosog – y rhai sy'n cael eu cynnal sawl gwaith y flwyddyn (e.e. rheoli cadnoid, hyfforddiant sledio gyda chŵn).

Os byddwch yn hysbysebu eich digwyddiad cyn cael Trwydded wedi'i llofnodi, **ar eich menter chi y mae hynny pe bai eich cais yn aflwyddiannus**. Os oes angen i chi drefnu cyhoeddusrwydd ymhell cyn y dyddiad pan fydd y digwyddiad yn cychwyn neu'n cael ei gynnal, dylech gyflwyno eich cais mewn da bryd i ganiatáu ar gyfer y cyfnod asesu o 12 wythnos.

Cyn llenwi'r Ffurflen, dylech fod wedi meddwl am:

- Beth yn union yr ydych yn bwriadu'i wneud
- Ble a phryd y bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ac am ba hyd y bydd yn para
- Faint o bobl fydd yn cymryd rhan
- A fydd angen mynediad i gerbydau arnoch
- A oes angen mynediad arnoch cyn ac ar ôl y digwyddiad er mwyn gosod a thynnu i lawr
- Pa gyfleusterau cynnal y bydd eu hangen arnoch – e.e. toiledau symudol, marsaliaid, arlwyo ac ati
- Sut y byddwch yn sicrhau diogelwch ac yn darparu yswiriant.

Bydd gofyn hefyd i chi ddarparu Asesiad Risg ar gyfer pob gweithgaredd, digwyddiad a phrosiect. Mae cyngor ar gynnal digwyddiadau'n ddiogel ar gael gan [Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#). Efallai y gall cyrff ymbarél sy'n cefnogi gweithgareddau, megis [Cymdeithas Ceffylau Prydain](#), [Cymdeithas Gyrru Car a Cheffyl Prydain](#) neu [Cyfeiriannu Prydain](#) er enghraifft, gynnig cyngor penodol.

Coetiroedd a Chi: Arolygon Cadwraeth, Treftadaeth ac Archeolegol

Nid oes angen trwydded bob amser ar gyfer arolygon, er y gallai fod gofyn cael un os ydych yn bwriadu mynd â'ch cerbyd i mewn i'r coetir. Siaradwch â'ch Swyddfa Ardal leol yn gyntaf.

Coetiroedd a Chi: Prosiectau

Fel arfer mae'r prosiectau hyn yn golygu gosod seilwaith, er enghraifft, llwybrau, arwyddion, cerfluniau, llochesi – neu wneud gwaith rheoli coetir y cytunwyd arno. Os ydych yn cynllunio prosiect fel hyn, **cofiwch ei drafod gyda ni fel cam cyntaf**. Efallai y bydd materion penodol yn ymwneud â rheoli, Cynllun Adnoddau Coedwigoedd Lleol neu ddatblygu y byddai angen i chi eu hystyried, neu sy'n gwneud y prosiect yn anaddas mewn man penodol.

Byddwn yn gwneud ein gorau i weithio gyda chi i ddatrys y materion hyn.

A chymryd bod y trafodaethau cychwynnol yn gadarnhaol, bydd angen i chi ddarparu rhagor o fanylion a gwybodaeth drwy lenwi ffurflen gais Coetiroedd a Chi: Prosiectau.

Os caiff eich cynnig ei gymeradwyo, byddwn yn cynnig i chi un ai:

1. Gytundeb Rheoli - contract tymor penodol sy'n nodi beth yn union mae gennych hawl i'w wneud – nid yw'n golygu mai dim ond chi sydd â hawl i ddefnyddio'r coetir nac yn rhoi buddiant cyfreithiol i chi ynddo.
2. Prydles – mae prydles yn golygu mai dim ond chi sydd â hawl i feddiannu ardal wedi'i diffinio, a byddai'n addas ar gyfer e.e. prosiectau bwyd cymunedol neu godi llochesi neu adeiladau.

Mae croeso i gynigion ar gyfer prosiectau tymor hwy gan sefydliadau gwirfoddol a chymunedol o bob math. Mae'n rhaid bod gan eich sefydliad gyfansoddiad sylfaenol o leiaf, sy'n nodi eich nodau, strwythur rheoli clir, meini prawf aelodaeth tryloyw, sy'n gallu arddangos cysylltiadau clir â'r coetir dan sylw ac â sefydliadau lleol eraill.

Bydd y Ffurflen Gais yn gofyn i chi ddangos sut y bydd eich prosiect yn cyfrannu at gyflawni nodau Coetiroedd i Gymru. Hon yw strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru i reoli, datblygu a chreu coetiroedd yng Nghymru. Rhestrir pedair thema allweddol y Strategaeth a chanlyniadau arfaethedig pob un o'r rhain yn Atodiad 3 isod, a gallwch lwytho copi llawn i lawr o wefan Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Os yw eich prosiect yn cyfrannu at strategaethau neu gynlluniau lleol eraill, dywedwch wrthym am y rheiny hefyd.

Prydlesu neu Brynu Coetir Llywodraeth Cymru

Efallai fod eich menter gymdeithasol yn dymuno cymryd cyfrifoldeb llawn am reoli coetir er mwyn sicrhau mwy o fuddion tymor hir i gymunedau lleol. Byddai angen prydles â hawliau daliadaeth unigryw, neu bryniant llwyr, ar gyfer hyn ac efallai y caiff ei ystyried lle mae tystiolaeth o fuddion o'r fath wedi cael ei dangos - gwneir y penderfyniadau terfynol gan Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr Ystâd Coetir. Eto, **y cam cyntaf yw trafod eich cynigion gyda staff eich Swyddfa Ardal leol**. Os bydd eich cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd angen i chi lenwi ffurflen gais Coetiroedd a Chi: Prosiectau fel y nodwyd uchod, ond bydd angen gwybodaeth ychwanegol hefyd wrth i'r cynnig fynd rhagddo.

Mae coetiroedd yn cael eu prydlesu a'u gwerthu am werth y farchnad, a bydd angen i chi gyllidebu ar gyfer costau cyfreithiol eich grŵp. Gall prydlesau a gwerthiannau gael eu hystyried lle:

- Mae'r coetir dan sylw yn rhydd-ddaliad;
- Mai budd cyfyngedig i randdeiliaid presennol sydd yn y coetir;
- Mae'r coetir mewn bloc ar ei ben ei hun neu ar ymyl bloc mwy gyda'i lwybrau mynediad ei hun;
- Mae'n amlwg mai dim ond drwy brydlesu neu brynu'r coetir y byddai modd gwireddu eich cynlluniau ac na fyddai Cytundeb Rheoli neu Drwydded yn briodol.

Defnyddio Bren

Gall ceisiadau i ddefnyddio ychydig o bren fel rhan o'ch gweithgaredd neu brosiect (er enghraifft, hyfforddiant rheoli coetir, gwneud eitemau bach i'w gwerthu) gael eu hystyried. Bydd unrhyw bren yn cael ei werthu am werth y farchnad. Bydd pob cais yn cael ei ystyried fesul un yn unol â'r canllawiau canlynol:

- Cytunir gyda staff y Swyddfa Ardal leol ar **gynllun rheoli** sylfaenol a rhagnodol. Rhaid i hwn:
 - gyfrannu at wireddu amcanion y Cynllun Adnoddau Coedwigoedd a 'Choetiroedd i Gymru'
 - nodi'r ardal i weithio arni
 - rhoi disgrifiad manwl gywir o'r gwaith sydd i gael ei wneud
 - rhoi amcangyfrif o faint o bren sydd dan sylw.
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn **monitro a chofnodi'r** holl bren sy'n cael ei gynaeafu ac yn codi tâl ar y gyfradd y cytunwyd arni.

4. Sut yr asesir Eich Cynnig

Pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen gais, byddwn yn gwirio'r holl ddogfennau ategol sy'n ofynnol. Os yw'r holl fanylion wedi cael eu cynnwys, bydd y cynnig wedyn yn cael ei gylchredeg er mwyn i staff y Swyddfa Ardal leol wneud sylwadau arno. Mae hyn yn

gwneud yn siŵr ein bod yn cael digon o wybodaeth gan staff lleol i wneud y penderfyniad cywir.

Ein nod yw dod yn ôl atoch gyda phenderfyniad cyn pen 12 wythnos o gyflwyno cynnig sydd wedi cael ei gwblhau'n llawn. Byddwn yn chwilio am gadarnhad:

- Eich bod wedi rhoi manylion amdanoch chi neu eich grŵp
- Bod yr hyn rydych chi eisiau ei wneud a ble rydych chi am ei wneud yn eglur – eich bod wedi meddwl yn fanwl am y cynnig, ei fod wedi cael ei gynllunio'n dda ac y caiff ei reoli'n ddiogel
- Ein bod yn gwybod faint o bobl fydd yn cymryd rhan, pa un ai y codir tâl arnynt ai peidio, pa gyfleusterau fydd yn cael eu darparu, ac a fyddir yn mynd â cherbydau i mewn i'r coetir.

Prosiectau Tymor Hwyr

Eto, byddwn yn gwirio i wneud yn siŵr eich bod wedi anfon yr holl ddogfennau ategol sy'n ofynnol atom. Os yw'r holl wybodaeth wedi cael ei chynnwys, bydd y cynnig yn cael ei gylchredeg i'r staff Swyddfa Ardal gael gwneud sylwadau arno, am yr un rhesymau ag uchod. Gall fod yn angenrheidiol trafod a chytuno ar ddiwygiadau. Byddwn yn chwilio am gadarnhad:

- Bod eich cynnig yn helpu i wireddu canlyniadau Coetiroedd i Gymru
- Eich bod wedi rhoi manylion llawn yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud, ymhle a phryd y bydd yn digwydd, a beth fydd y buddion
- Eich bod wedi rhoi manylion eich sefydliad – ei gyfansoddiad a sut mae'n cael ei reoli, sut y gall pobl gymryd rhan, y sgiliau fydd gan aelodau i ddatblygu a rheoli eich prosiect
- Mae tystiolaeth o'r angen am y prosiect, cefnogaeth leol iddo, a manylion sefydliadau partner
- Sut y byddwch yn darparu adnoddau ar gyfer y gwaith ac yn ei gynnal yn y tymor hir.

Ein nod yw dod yn ôl atoch gyda phenderfyniad cyn pen 12 wythnos o gyflwyno cynnig sydd wedi cael ei gwblhau'n llawn.

Prydlesu neu Brynu Coetir Llywodraeth Cymru

Ar ôl derbyn eich ffurflen gais, byddwn yn ei gwirio i wneud yn siŵr eich bod wedi anfon yr holl ddogfennau ategol sy'n ofynnol atom. Os yw'r holl fanylion wedi cael eu cynnwys, bydd y cynnig wedyn yn cael ei gylchredeg i staff Cyfoeth Naturiol Cymru gael gwneud sylwadau arno. Gall fod yn angenrheidiol trafod a chytuno ar ddiwygiadau.

Byddwn yn rhoi penderfyniad *mewn egwyddor* i chi cyn pen 12 wythnos o gael cynnig wedi'i gwblhau'n llawn.

Os yw'r dystiolaeth a roddir yn dangos bod y cynnig i brydlesu'n ddigon cryf i fynd ag ef yn ei flaen, bydd angen gwybodaeth ychwanegol, e.e. achos busnes manwl, cynllun rheoli coetir, prisiad ffurfiol.

Bydd Panel Gwerthuso (gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr annibynnol) yn ystyried y cynigion manwl, ac yn argymhell i Weinidog Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr Ystâd Coetir pa un ai y dylid cefnogi gwerthiant ai peidio.

Gan fod y rhan hon o'r broses yn debygol o fod yn fwy cymhleth, byddwn yn trafod amserlen ar gyfer gwneud penderfyniad ac yn cytuno arni gyda chi, a byddwch bob amser yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sut mae pethau'n mynd. Ym mhob achos, os nad ydym yn gallu cymeradwyo eich cynnig, byddwn yn dweud wrthy'ch pam.

5. Astudiaethau Achos

Dyma rai o'r prosiectau niferus sydd eisoes wedi trefnu digwyddiadau a gweithgareddau ac wedi datblygu prosiectau'n llwyddiannus ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru:

Mynediad Gwell

Unodd Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Cwm Celyn, Blaenau Gwent mewn Cytundeb Rheoli â Chyfoeth Naturiol Cymru i gysylltu'r coetir lleol â llwybr o amgylch Pwll Cwm Celyn gerllaw. Creodd hyn deithiau cerdded cymunedol newydd a mynediad cymunedol cynyddol, ac roedd yn cynnwys y priif elfennau canlynol:

- **Mynedfa:** Uwchraddio a thirlunio, a'r maes parcio a'r fynedfa i'r coetir, a gosod safle picnic bach
- **Mynediad gwell** a llwybrau trwy'r safle, gyda gwaith draenio cysylltiedig, yn cynnwys pwll bach.
- **Plannu** coed llydanddail brodorol ar ôl tynnu rhai coed conwydd cyn i'r prosiect ddechrau.
- Creu "amffitheatr" i'w defnyddio fel **ystafell ddosbarth awyr agored**

Cyfleusterau Cymunedol

Roedd angen lleoliad coetir ar Ail Grŵp Sgowtiaid Penparcau, sydd wedi'i leoli yn Aberystwyth, er mwyn adeiladu Caban Coed ac ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau sgowtio. Drwy weithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, roedd y grŵp wedi darganfod bod coetir Cwmnewyddion yn ddelfrydol ar gyfer ei anghenion - yn agos at Aberystwyth gyda mynediad da yn bodoli'n barod. Erbyn hyn mae'r grŵp yn prydlesu rhan o'r coetir, mae wedi adeiladu'r Caban, gwella llwybrau troed, creu ardal wersylla, adeiladu cuddfannau gwyllo adar a datblygu gardd lysiau fach. Mae'r Sgowtiaid bellach yn cyfarfod unwaith yr wythnos yn y coetir er mwyn ymgymryd â gweithgareddau a chynnal y cyfleusterau y maent wedi'u hadeiladu. Mae aelodaeth y Grŵp yn cynyddu ac mae aelodau o'r gymuned leol hefyd wedi dechrau defnyddio'r cyfleusterau ac elwa ar hynny.

Iechyd a Lles

Defnyddir coetir Cwmsaebren ger Treherbert yn rheolaidd gan grŵp o bobl leol sy'n dymuno gwella'u hiechyd ar ôl salwch difrifol. Mae gan Goed Lleol Drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru i gynnal amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, hwyliog, gyda'r grŵp, e.e. byw yn y gwyllt, creu mynediad, sgiliau coetir – a'r cyfan yn cael ei oruchwylio gan staff cymwysedig. Mae'r coetir mewn lleoliad ardderchog i'r grŵp - nesaf at ganol y dref gyda mynediad da a manau agored. Mae'r fenter yn gwneud yn dda - yn darparu lleoliad arall i bobl na fyddai'n defnyddio campfa gonfensiynol ac yn rhoi dechrau effeithiol a phleserus iddynt i ffordd o fyw mwy gweithgar ac iach.

Creu a Rheoli Cynefinoedd

Mae Gwirfoddolwyr Kilvey Hill yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith gwarchod a chreu cynefinoedd yng nghoetir Kilvey Hill, Abertawe. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn cyflawni gorchwylion fel chwynnu, glanhau, a rheoli llystyfiant i annog bywyd gwyllt. Maent hefyd yn gwneud gwaith adfer cynefinoedd, fel tynnu coed conwydd, casglu a hau hadau grub â'r nod o adfer ardal werthfawr o rostir grub tir uchel. Mae'r

gwirfoddolwyr hefyd yn cynnal a chadw llwybrau troed, cerfluniau a gwaith celf, yn trefnu helfeydd sbwriel, ac yn arwain teithiau tywys.

Gweithgareddau a Digwyddiadau Codi Arian

Mae llawer o sefydliadau cymunedol yn cael Trwyddedau i gynnal digwyddiadau codi arian ar yr Ystâd Coetir. Mae ffyrdd, llwybrau a llwybrau beicio'r coedwigoedd yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer teithiau cerdded a beicio noddedig, â'r fantais nad oes traffig arnynt a'u bod yn gyfoethog o ran golygfeydd.

Prosiectau Celf

Yng Ngogledd Cymru, yng nghanol coedwig Gwydir, datblygwyd digwyddiad theatrig cyffrous gan Gelfyddydau Cymunedol Cynefin a menter gymdeithasol leol, Golygfa Gwydir, sydd wedi ymrwymo i Gytundeb Rheoli gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Dewiswyd y goedwig fel lleoliad ar gyfer celfyddyd theatrig unigryw sy'n ysgogi'r holl synhwyr. Cynhaliwyd y cynyrchiadau, a oedd yn archwilio hanes, diwylliant, iaith a chwedlau Cymru, mewn labrinth o lwybrau trwy'r goedwig. Yn ogystal â chymryd rhan yn y perfformiadau, adeiladodd Golygfa Gwydir y llwybrau gyda chymorth gwirfoddolwyr lleol ac artistiaid eraill. Mae'r grŵp wedi mynd o nerth i nerth, ac mae erbyn hyn mae wedi arallgyfeirio i gynnal prosiectau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol eraill.

6. Cymorth a Gwybodaeth

Gall datblygu a rheoli digwyddiad, gweithgaredd neu brosiect fod yn gymhleth – efallai y bydd angen peth cyngor ac arweiniad arnoch ar hyd y ffordd.

Os ydych yn cynllunio digwyddiad neu weithgaredd, bydd angen sicrwydd Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5m arnoch, ynghyd ag asesiad risg, mapiau ac ati.

Os yw eich prosiect yn fwy cymhleth, bydd angen i chi fod yn gorff â chyfansoddiad cyfreithiol, bydd rhaid i chi gynnal ymgynghoriad lleol, sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol, ac ati.

Bydd swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cymorth i chi ddatblygu eich cynnig cyn belled â phosibl, er enghraifft, trwy ddarparu:

- Cyngor ac arweiniad ar broses cyflwyno cynnig i Goetiroedd a Chi
- Cymorth â mapiau coetiroedd
- Yr arferion gorau o ran rheoli coetiroedd
- Canllawiau Coetiroedd i Gymru
- Gwybodaeth am goetiroedd lleol a Chynlluniau Adnoddau Coedwigoedd
- Gwybodaeth am grwpiau lleol eraill a phartneriaid posibl
- Esboniad o brosesau asesu risg sylfaenol
- Cyngor ynglŷn â thrwyddedau cwmpo a phlannu coed

Fodd bynnag, os oes angen cyngor arnoch ynglŷn â sut i sefydlu eich grŵp, ymhle y gallai ffynonellau cyllid posibl fod, sut i gyrraedd a chynnwys pob aelod o'ch cymuned, arweiniad cynllunio ac ati, bydd angen i chi siarad â phobl ag arbenigedd penodol yn y meysydd hyn.

Mae nifer o sefydliadau arbenigol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n cynnig cymorth - a grwpiau eraill sy'n gallu rhannu eu profiadau ymarferol o gyflawni gwaith tebyg. [Llais y Goedwig](#) yw'r rhwydwaith coetiroedd cymunedol yng Nghymru a gall gynnig cyngor, cyfleoedd rhwydweithio a chanllaw arfer gorau – mae ei fanylion cyswllt ar dudalen we Coetiroedd a Chi ynghyd â manylion cyrff eraill sy'n darparu cymorth.

7. Cwestiynau Cyffredin

Mae gen i syniad - â phwy ddylwn i gysylltu i'w drafod?

Dylech siarad â'ch Swyddfa Ardal leol – edrychwch ar y map ar dudalen we Coetiroedd a Chi am yr holl fanylion cyswllt ac i wirio ymhle mae eich coetir.

A fydd angen yswiriant arna i?

Bydd angen isafswm Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus o £5 miliwn arnoch i allu cynnal gweithgaredd, digwyddiad neu brosiect ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru. Dylech holi eich cwmni yswiriant a / neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol i weld a oes angen rhagor o ddarpariaeth yswiriant arnoch.

Pam mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud bod rhaid i ni wneud cais am Drwydded 12 wythnos cyn y gweithgaredd neu'r digwyddiad?

Gall coetiroedd Llywodraeth Cymru fod yn lleoedd prysur. Efallai fod cynaeafu pren ar waith neu wedi cael ei gynllunio, ac mae nifer o bobl a grwpiau gwahanol yn defnyddio coetiroedd ar gyfer pob math o weithgareddau. Am resymau iechyd a diogelwch, ac er mwyn sicrhau nad effeithir er gwaeth ar ddefnyddwyr eraill, mae angen i ni gael gwybod am ddigwyddiadau a gweithgareddau ac unrhyw ddatblygiad prosiect a rhoi caniatâd *ymlaen llaw*. Mae'n hanfodol ymgynghori'n drwyadl â'r holl staff lleol, ac mae hyn yn cymryd amser.

Pwy sy'n gyfrifol am roi gwybod i ddefnyddwyr eraill y goedwig am fy nigwyddiad / gweithgaredd i?

Y chi. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi rhestr i chi o'r manylion cyswllt perthnasol. Chi fydd hefyd yn gyfrifol am gael caniatâd (os oes angen) gan, er enghraifft, yr heddlu lleol neu'r awdurdod priffyrdd.

Sut mae llenwi asesiad risg?

Bydd gofyn i chi ddarparu Asesiad Risg ar gyfer pob gweithgaredd, digwyddiad a phrosiect. Mae cyngor ar gynnal digwyddiadau'n ddiogel ar gael gan [Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#). Efallai y gall cyrff ymbarél sy'n cefnogi gweithgareddau, megis [Cymdeithas Ceffylau Prydain](#), [Cymdeithas Gyrru Car a Cheffyl Prydain](#) neu [Cyfeiriannu Prydain](#) er enghraifft, gynnig cyngor penodol.

Mae fy nghynnig wedi cael ei wrthod – alla i apelio?

Wrth gwrs – ysgrifennwch atom yn nodi'r rhesymau pam rydych chi'n meddwl bod y penderfyniad anghywir wedi cael ei wneud. Byddwn yn edrych ar y cynnig eto ac yn ymateb.

Beth ddylem ni ei wneud os ydym yn dymuno cael gwybodaeth ynglŷn â'n coetir lleol?

Siaradwch â'ch Swyddfa Ardal leol - edrychwch ar y map ar dudalen 3 o'r canllaw hwn am yr holl fanylion cyswllt. Efallai nad Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r coetir y mae gennych chi ddiddordeb ynddo, ond fe wnawn ein gorau i ddweud wrthyhch pwy sy'n ei reoli.

Beth fydd yn digwydd os oes grwpiau eraill eisoes yn defnyddio'r coetir?

Mae'n dibynnu beth rydych yn bwriadu'i wneud. Mae coetiroedd yn lleoedd mawr ac un o'r pethau gwych amdanynt yw ei bod hi'n hawdd cadw draw o bobl eraill. Fodd bynnag, o

bryd i'w gilydd, gall gweithgareddau sy'n gwrthdaro arwain at wrthod un cynnig mewn lleoliad penodol. Er enghraifft, mae hyn yn arbennig o wir yn achos ceisiadau i brydlesu ardaloedd o goetiroedd prysur, amlbwrpas.

[Beth fydd yn digwydd os daw ein grŵp i ben hanner ffordd drwy gyfnod y cytundeb?](#)

Yn anffodus, mae grwpiau weithiau'n dod i ben yn naturiol – rydym yn deall hynny. Os oes gan eich grŵp gytundeb gyda ni a'i fod yn wynebu anawsterau o unrhyw fath, siaradwch â ni cyn gynted ag y gallwch ac fe wnawn ni ein gorau glas i helpu.

[Sut gall ysgolion ddefnyddio coetiroedd?](#)

Rydym yn croesawu ysgolion yn y coetiroedd yr ydym yn eu rheoli. Siaradwch â ni yn gyntaf am yr hyn rydych chi'n bwriadu ei wneud - efallai na fydd angen caniatâd ffurfiol arnoch. Os ydych yn bwriadu cynnal gweithgareddau Ysgol Goedwig, efallai y bydd angen Trwydded arnoch a bydd angen i chi lenwi'r Ffurflen Gais briodol.

[Beth ddylem ni ei wneud os oes gweithgarwch gwrthgymdeithasol yn ein coetir lleol?](#)

Siaradwch â'ch Swyddfa Ardal leol – mae'r manylion cyswllt ar dudalen we Coetiroedd a Chi. Efallai nad Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r coetir y mae gennych chi ddiddordeb ynddo, ond fe wnawn ein gorau i ddweud wrthyhch pwy sy'n ei reoli.

[Rydym yn dymuno defnyddio'r pren o'r coetir, allwn ni wneud hynny?](#)

Gweler yr arweiniad 'Defnyddio Pren' yn adran 3 o'r canllaw hwn.

Atodiad 1 - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym yn rhoi croeso brwd i gynigion ac ymholiadau gan bob grŵp – yn enwedig y rheiny sy'n cael eu hamddiffyn o dan y gyfraith. Mae coetiroedd Cymru yma i bawb, heb ystyried:

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd a Chred
- Cyfeiriadedd Rhywiol

Os ydych chi'n cynllunio prosiect neu ddigwyddiad mewn coetir sy'n cael ei reoli gan Gyfoeth Naturiol Cymru, bydd angen ystyried sut y byddwch yn sicrhau bod pawb yn eich cymuned yn gwybod amdano ac yn cael cyfle i gymryd rhan.

Mae *cydraddoldeb* yn ymwneud â chreu cymdeithas decach, lle gall pawb gymryd rhan a lle mae pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.

Mae *amrywiaeth* yn ymwneud â chydabod a gwerthfawrogi gwahaniaeth yn y synnwyr ehangaf. Mae'n ymwneud â deall bod pawb yn wahanol a bod gan bawb ofynion y mae angen inni eu hystyried fel y gallant gymryd rhan mor llawn â phosibl mewn bywyd o ddydd i ddydd.

Mae ein cymdeithas yn amrywiol, gyda phobl o wahanol oedrannau, hiliau, galluoedd ac anableddau, crefyddau a chredoau gwahanol, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol gwahanol. Mae angen i ni ddysgu o brofiadau ac anghenion yr holl grwpiau hyn i roi'r gwasanaethau gorau a allwn.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r buddion a ddaw yn sgil amrywiaeth. Mae codi ymwybyddiaeth o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, ymgynghori ynglŷn â hwy ac ymateb iddynt yn helpu i sicrhau ein bod ni'n wirioneddol gynhwysol, a bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a'r cyfleoedd yr ydym yn eu cynnig, yn hygyrch i bawb ledled Cymru. Rydym yn sgrinio ein holl bolisiâu a gweithgareddau ac yn cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob un o'r rhai sy'n effeithio'n uniongyrchol ar bobl a chymunedau sy'n defnyddio'r coetiroedd yr ydym ni'n eu rheoli a'r staff rydym yn eu cyflogi.

Atodiad 2 – Y Gymraeg

Rydym yn argymhell eich bod yn datblygu ac yn mabwysiadu polisi ar y Gymraeg os nad oes un gennyh yn barod. A fydd eich arwyddion a'ch deunydd hyrwyddo i gyd yn ddwyieithog? Dyma rai ffynonellau gwybodaeth a chymorth defnyddiol:

- [Estyn Llaw](#) - sefydlwyd cynllun Estyn Llaw yn 2000 i gynnig cymorth ac arweiniad i grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gynyddu'r defnydd a wnânt o'r Gymraeg, ac i annog gwirfoddoli ymhlith siaradwyr Cymraeg.
- [Cynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru](#)

Atodiad 3 - Coetiroedd i Gymru

Mae strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl y gall coetiroedd a choed ei chwarae i wella bywydau pawb yng Nghymru, i gynnal yr amgylchedd ehangach a rhoi cyfleoedd i bobl a chymunedau.

Wrth lunio eich cynnig i gynnal gweithgaredd, digwyddiad neu brosiect, bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn helpu i gyflawni un neu fwy o'i phedair thema allweddol:

Ymateb i Newid yn yr Hinsawdd

- Mae coetiroedd Cymru yn cyfrannu at leihau ôl troed carbon Cymru

Coetiroedd i Bobl

- Mwy o gymunedau'n elwa o goetiroedd a choed
- Mwy o bobl yn mwynhau buddion dysgu gydol oes coetiroedd a'u cynnyrch
- Mwy o bobl yn byw bywydau iachach o ganlyniad i'w defnydd a'u mwynhad o goetiroedd
- Mwy o bobl yn elwa o fentrau sy'n gysylltiedig â choetiroedd

Sector Coedwigaeth Cystadleuol ac Integredig

- Mwy o bren sy'n cael ei dyfu yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru
- Y sector coedwigaeth wedi'i integreiddio'n well ac yn fwy cystadleuol, ac yn ategu economi Cymru
- Defnydd cynyddol o bren fel adnodd adnewyddadwy allweddol
- Gweithlu ffyniannus a medrus o fewn y sector coedwigaeth

Ansawdd Amgylcheddol

- Gwaith rheoli coetiroedd yn cyrraedd safonau uchel o stiwardiaeth amgylcheddol
- Coetiroedd a choed o werth cadwraeth arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Bioamrywiaeth coetiroedd yn cael ei chynorthwyo a choetiroedd brodorol yn cael eu rheoli'n ffafriol
- Coetiroedd a choed yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad tirwedd arbennig Cymru ac at safleoedd o bwysigrwydd treftadaeth a diwylliannol
- Coed a choetiroedd newydd a phresennol yn cyfrannu at reoli dŵr a phridd